Cyflwyno rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon i CGA i'w hailachredu (ar gyfer rhaglenni presennol y daw eu hachrediad cychwynnol i ben o fis Medi 2024 ymlaen)

Ebrill 2023

1 Cyflwyniad a chefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

O dan Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017, fel y'i diwygiwyd, mae gan CGA gyfrifoldeb statudol i:

- achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
- monitro cydymffurfedd rhaglenni achrededig â Meini Prawf Achredu Llywodraeth Cymru
- tynnu achrediad rhaglenni yn ôl os yw o'r farn ei bod hi'n briodol gwneud hynny
- codi ffioedd yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth; ac, wrth arfer y swyddogaethau hyn,
- ystyried unrhyw ragolwg o'r galw am athrawon newydd gymhwyso y caiff hysbysiad ysgrifenedig ohono gan Weinidogion Cymru

Trwy wneud hynny, mae CGA yn ceisio sicrhau bod rhaglenni AGA yn briodol yn broffesiynol, yn gofyn am ymdrech a bod athrawon dan hyfforddiant yn bodloni safonau statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru o ganlyniad.

Rhaid i unrhyw bartneriaeth (yr ymgeisydd) sydd am redeg rhaglen AGA sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru ers Medi 2019 sicrhau yn y lle cyntaf fod CGA wedi'i hachredu, trwy ei **Fwrdd Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) (y Bwrdd)**.

2 Diben y ddogfen hon

Ar gyfer partneriaethau sydd am ailachredu rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno:

- y gweithdrefnau a'r amserlenni i bartneriaeth gyflwyno rhaglen i'w hailachredu'n broffesiynol
- y broses y bydd CGA yn ei dilyn wrth benderfynu p'un ai i achredu rhaglen ai peidio a sut/pryd bydd partneriaethau'n cael gwybod am y penderfyniad

Mae'n berthnasol i bob rhaglen AGA a fydd yn rhedeg yng Nghymru, a rhaid i gyflwyniadau rhaglenni gael eu gwneud i CGA yn unol â'r amserlen yn adran pedwar.

Dylid defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â:

- Meini Prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys y safonau ar gyfer statws athro cymwysedig (SAC)
- y ffurflen ar gyfer cyflwyno rhaglenni i'w hailachredu i CGA yng Nghymru
- Rheoliadau'r Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) 2017

Mae'r dogfennau hyn a gwybodaeth gysylltiedig arall ar gael ar: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-addysg-gychwynnol-athrawon-aga/cyflwyno-rhaglen

3 Proses ailachredu rhaglenni a'r gwahaniaethau rhyngddi ag achredu

Mae CGA yn diffinio achredu fel y broses o ganfod derbynioldeb proffesiynol rhaglen AGA sy'n arwain at gymhwyster addysgu, yn erbyn y 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru' ('y Meini Prawf'). Bydd achrediad yn cael ei roi i raglenni, nid partneriaethau, ac felly rhaid i achredu **ddigwydd raglen wrth raglen**.

Mae rhaglen achrededig yn para am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar y mwyaf. Ar ôl pum mlynedd (neu hyd y cyfnod achredu, os yw'n llai), ac os yw'r bartneriaeth yn dymuno parhau i gynnal y rhaglen, rhaid ailgyflwyno'r rhaglen honno i CGA i'w hailachredu. Yn ystod y cyfnod achredu, bydd y rhaglen fel arfer yn destun monitro gan CGA ac arolygu gan Estyn, a fydd yn cynnig cyfle i'r bartneriaeth amlygu unrhyw ddatblygiadau/gwelliannau a wnaed i'r rhaglen ac i CGA gynnig arweiniad/cyfeiriad i'r bartneriaeth. (Gweler adran 10 am fanylion pellach am y broses fonitro).

Mae canllaw ar wahân ar gyfer achredu i'w weld yn https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-addysg-gychwynnol-athrawon-aga/cyflwyno-rhaglen

Gorchwyl y pwyllgor achredu yw penderfynu a yw rhaglen AGA bresennol yn parhau i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer AGA, fel y'i hamlinellir yn adran A y 'Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru' ('y Meini Prawf') a'i bod yn mynd i'r afael â phob mater y cyfeirir ato yn adran B dogfen y Meini Prawf. Trwy wneud hynny, bydd y pwyllgor yn ceisio sicrhau bod unrhyw raglen yn gofyn am ymdrech, yn gredadwy ac yn briodol yn broffesiynol.

Mae CGA yn cadw'r hawl i ailymweld â rhaglen unrhyw bryd yn ystod y cyfnod achredu.

Dylai partneriaethau nodi nodweddion allweddol canlynol ailachredu, yn wahanol i'r achredu cychwynnol:

- caniateir ailachredu am gyfnod unigol, o hyd at bum mlynedd, y tu hwnt i achredu rhaglen yn wreiddiol; mae hyn yn golygu y gall rhaglen redeg am hyd at ddeng mlynedd cyn bod rhaid cynnal asesiad achredu llawn
- bydd ailachredu'n cynnwys
    - ailgyflwyno fersiwn wreiddiol y rhaglen achrededig
    - cwblhau templed newydd yn seiliedig ar newidiadau i'r rhaglen achrededig, a wneir yng ngoleuni'r meini prawf achredu newydd, a/neu newidiadau a wnaed i'r rhaglen am unrhyw reswm arall
- bydd monitro a chanlyniadau arolygu yn llywio ailachredu
- ni fydd ailachredu, fel arfer, yn cynnwys unrhyw gynllunio gweithredu na monitro adnoddau; os bydd gan y rhaglen unrhyw broblemau ansawdd neu gydymffurfio erbyn y cyfnod ailachredu, ni chaniateir achrediad pellach
- bydd ymweliadau ailachredu'n fyrrach na'r ymweliadau achredu gwreiddiol

Monitro, diffyg cydymffurfio a gwneud cais am ailachredu

Os ystyrir nad yw rhaglen yn cydymffurfio, naill ai trwy weithgarwch monitro neu arolygu, bydd yn cael ei chynnwys ym mhroses achos pryder CGA a/neu broses gweithgarwch dilynol Estyn. Os nad yw'r bartneriaeth honno (a) yn gwneud cynnydd digonol tuag at gyflawni cydymffurfedd; neu (b) yn gallu dangos tystiolaeth o hyn o fewn yr amserlen ofynnol ar gyfer cyflwyno am statws ailachredu, ni fydd y bartneriaeth yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer achredu a amlinellir yn y Meini Prawf ac, felly, ni fyddai'n gallu cyflwyno'r rhaglen honno/rhaglenni hynny i'w hailachredu.

Bydd y broses ailachredu'n cynnwys nifer o gamau:

3.1 Cymeradwyaeth/dilysu gan y Brifysgol

Rhaid i'r bartneriaeth sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gael ei dilysu'n academaidd **cyn** ei chyflwyno i CGA am achrediad proffesiynol. Bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd priodol i CGA fod y rhaglen yn bodloni safonau angenrheidiol y brifysgol sy'n dilysu.

3.2 Ailachrediad

Dyma pan fydd CGA yn sefydlu a yw'r rhaglen yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf ac, felly, a yw'r rhaglen yn gallu parhau i sicrhau bod athro dan hyfforddiant sy'n cwblhau'r rhaglen yn bodloni safonau SAC, ac yn addas i gofrestru'n athro ysgol gyda CGA. Nod CGA yw penderfynu a fydd rhaglen yn cynnig paratoad proffesiynol perthnasol ar gyfer addysgu. Bydd yr ailachrediad yn canolbwyntio ar agweddau proffesiynol allweddol ar y rhaglen ac ar ddealltwriaeth ac amgyffredion y staff sy'n ymwneud â'i chyflwyno. Nod ailachredu fydd ceisio sefydlu sut mae dylunio a chyflwyno'r rhaglen wedi

datblygu yn gysylltiedig â diwygio AGA a'r Meini Prawf. Mae'n ystyried canlyniadau gweithgarwch monitro a gweithgarwch arolygu.

Mae ailachredu'n berthnasol i raglenni sy'n bodoli eisoes yn unig. Os bydd partneriaethau'n dymuno gwneud newidiadau arwyddocaol i raglen, mae CGA yn cadw'r hawl i gymhwyso'r broses achredu gychwynnol (a'r ffioedd priodol), a fyddai'n adlewyrchu faint o amser y byddai ei angen i farnu ynghylch y newidiadau hynny. Dylai newidiadau arwyddocaol i ddyluniad neu strwythurau sylfaenol rhaglen gael eu trafod gyda swyddogion CGA cyn cyflwyno.

Wrth adolygu ac achredu rhaglenni, mae CGA wedi ymrwymo i'r egwyddorion cyffredinol canlynol:

- parch a ffydd y naill tuag at y llall fel sylfaen ar gyfer perthynas broffesiynol gadarnhaol rhwng CGA a phartneriaethau
- cydweithredu â phartneriaethau yn y broses ailachredu, gyda thystiolaeth yn llywio hynny, fel modd o sicrhau safonau AGA uchel yng Nghymru
- adnabod amrywiaeth cyd-destunau darparu'r rhaglenni
- pwysigrwydd y Gymraeg a sicrhau bod y trefniadau ailachredu'n gweithredu'n ddwyieithog
- cysondeb, tryloywder a thegwch trwy gydol y broses ailachredu
- cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu i CGA
- cyfleu canlyniadau a phenderfyniadau yn glir i'r bartneriaeth ac i'r cyhoedd yn ehangach

3.3 Canlyniadau ailachredu

Erbyn adeg ailachredu, bydd y rhaglen wedi bod yn rhan o:

- asesiad achredu cychwynnol
- cynllunio gweithredu a monitro amodau fel rhan o'r asesiad achredu gwreiddiol
- monitro ac arolygu (yn ôl pob tebyg) gan Estyn

Felly, rhagwelir fel arfer na fyddai unrhyw amodau pellach yn cael eu gosod ar raglenni (er bod yr opsiwn hwn ar gael i CGA), a gall y pwyllgor:

- wrthod y cyflwyniad ar gyfer statws achrededig y rhaglen
- ailachredu'r rhaglen gydag argymhellion am gamau gweithredu parhaus er mwyn i'r rhaglen wella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach

4 Amserlenni sy'n gysylltiedig â'r cylch ailachredu

Ni all yr un rhaglen AGA yng Nghymru fynd yn ei blaen heb gymeradwyaeth gan CGA. Bydd yr amserlen ganlynol yn berthnasol i bob rhaglen bresennol sydd â dyddiad terfyn achrediad o fis Medi 2025 ymlaen:

Cam gweithredu	**Dyddiad**
Y bartneriaeth i gyflwyno rhaglen i CGA ei hailachredu yn erbyn y meini prawf achredu	Erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn galendr cyn i'r statws achredu ddirwyn i ben
CGA i asesu rhaglenni	Fel arfer, erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn galendr cyn i'r statws achredu ddirwyn i ben
CGA i roi gwybod i'r bartneriaeth am y penderfyniad	Fel arfer, erbyn 31 Awst yn y flwyddyn galendr cyn i'r statws achredu ddirwyn i ben ac o fewn 15 niwrnod gwaith i asesu'r rhaglen
CGA i gadarnhau'r niferoedd a ariennir ar raglen	Mis Rhagfyr yn y flwyddyn galendr cyn i'r statws achredu ddirwyn i ben
Y bartneriaeth i ddechrau cyflwyno'r rhaglen newydd	O 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn ddechrau

Gan fod meini prawf achredu newydd yn cael eu rhoi ar waith yn 2023, bydd yr amserlen ganlynol yn berthnasol i bartneriaethau sy'n ceisio ailachrediad ar gyfer rhaglenni a fydd yn dirwyn i ben erbyn mis Medi 2024*

*Bydd CGA yn ymdrechu i asesu rhaglenni a rhoi gwybod i bartneriaethau am y penderfyniadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn rhesymol

Cam gweithredu	**Dyddiad**
Y bartneriaeth i gadarnhau ei bwriad i wneud cais am ailachrediad	29 Gorffennaf 2023
CGA i gadarnhau'r niferoedd a ariennir ar gyfer rhaglen yn 2024/25 (yn amodol ar achrediad)	Rhagfyr 2023
Y bartneriaeth yn cyflwyno rhaglen i CGA ei hachredu yn erbyn y meini prawf achredu newydd	5 Ionawr 2024

CGA i asesu rhaglen(ni)	31 Mai 2024
CGA i roi gwybod i'r bartneriaeth am y penderfyniad	30 Mehefin 2024 ac o fewn 15 niwrnod gwaith i asesu'r rhaglen
Y bartneriaeth i ddechrau cyflwyno'r rhaglen newydd	O 1 Medi 2024 ymlaen

5 Sut i gyflwyno rhaglen i'w hailachredu

Yng ngoleuni'r diwygiadau i'r Meini Prawf, a gweithredu ymagwedd interim at fonitro yn flaenorol, mae gofynion ychwanegol ar gyfer y ffurflenni sy'n gysylltiedig ag ailachredu. Rhaid i bartneriaethau gyflwyno rhaglenni i CGA yn electronig ac yn unol â'r amserlenni yn adran pedwar:

- Y ffurflen wreiddiol ar gyfer cyflwyno rhaglenni AGA am achrediad proffesiynol
- Copi o'r ffurflen ar gyfer cyflwyno rhaglenni AGA am ailachrediad proffesiynol gan CGA. Bydd hyn yn cynnwys:
    - disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed i'r rhaglen ar ôl dechrau'r rhaglen.
    - disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed i'r rhaglen o ran sut bydd y rhaglenni'n newid o ganlyniad i'r meini prawf newydd
- Datganiad am y model ariannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen; dylai hwn ystyried lefelau recriwtio yn ystod cyfnod achredu'r rhaglen, yr incwm y mae'r rhaglen wedi'i gynhyrchu a dyraniad adnoddau o fewn y rhaglen. Ni ddylai fod yn hwy na dwy ochr o A4

Dylai'r bartneriaeth benodi unigolyn sydd â digon o awdurdod yn gyswllt arweiniol ar gyfer y cyflwyniad. Dylai cyfrifoldeb am AGA a/neu sicrhau ansawdd o fewn y bartneriaeth fod wedi'i ddyrannu iddo. Bydd CGA yn cyfeirio pob gohebiaeth at yr unigolyn hwn a gall ddymuno cael eglurhad ynghylch agweddau penodol ar y cyflwyniad.

Ffioedd asesu ailachredu rhaglenni

Mae rhestr o ffioedd sy'n daladwy gan bartneriaethau sy'n cymryd rhan yn y broses achredu ar gael ar wefan CGA www.cga.cymru. Mae'r ffioedd sy'n gysylltiedig ag ailachredu yn is na'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r broses achredu.

6 Bwrdd Achredu AGA CGA (y Bwrdd)

Mae CGA yn dirprwyo cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i'w Fwrdd Achredu AGA, sydd â phwerau dirprwyedig i benderfynu p'un a ddylai rhaglen gael ei hachredu ai peidio, ac i fonitro cydymffurfedd â'r Meini Prawf.

Mae grŵp y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, dau ddirprwy a tua 10 arall. Daw aelodau grŵp y Bwrdd o amryw gefndir, gan gynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon, Estyn, consortia / awdurdodau lleol / ysgolion, ymarferwyr sydd wedi cofrestru gyda CGA yng nghategori'r athro ysgol, neu aelodau sydd ag arbenigedd arall sy'n berthnasol ym marn CGA.

Bydd unrhyw raglen a gyflwynir yn cael ei hystyried gan is-set o aelodau o blith y grŵp, sef y Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol (y Pwyllgor). I sicrhau cysondeb, bydd pob pwyllgor bob amser yn cynnwys y Cadeirydd neu un dirprwy. Mae'r cworwm, yn rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiad, yn dri aelod, sef maint pwyllgor yn nodweddiadol.

Mae'n ofynnol bod pob aelod yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn ystyried cyflwyno rhaglen. Bydd unrhyw wrthdaro a nodir naill ai gan aelod Bwrdd neu bartneriaeth yn cael ei ystyried gan swyddog awdurdodedig priodol CGA (sy'n cymryd cyngor cyfreithiol, os bydd angen) a gall fod yn ofynnol i'r aelod roi'r gorau i ystyried rhaglen benodol os bydd y swyddog awdurdodedig priodol o'r farn bod gwrthdaro neu amgyffrediad o wrthdaro o'r fath yn bodoli.

Caiff pob cyfarfod ei wasanaethu gan swyddog awdurdodedig priodol CGA a staff cymorth a fydd yn cynnal trosolwg o'r broses achredu.

7 Sut mae CGA yn ystyried rhaglen a gyflwynir i'w hailachredu

Bydd tri cham i'r asesiad ailachredu:

- adolygiad ar bapur gan y pwyllgor o raglen a gyflwynir
- ymweliad gan y pwyllgor â safle'r bartneriaeth, gan gynnwys cyfarfod ar wahân i archwilio cyflwyniad pob rhaglen; trefnir y rhain fel arfer am **hanner diwrnod fesul rhaglen** ac fe'u cynhelir mewn lleoliad y mae pawb yn cytuno arno
- y penderfyniad a'r cadarnhad ysgrifenedig

Anfonir llythyr at y bartneriaeth o leiaf 20 diwrnod gwaith cyn yr ymweliad â safle a chyfarfod asesu'r rhaglen. Bydd hyn yn cadarnhau cyfansoddiad y pwyllgor ar gyfer asesiad pob rhaglen, fformat yr ymweliad â'r safle a'r cyfarfod, a bydd yn awgrymu pwy fydd y bartneriaeth efallai am iddynt fod yn bresennol yn yr ymweliad â'r safle a chyfarfod(ydd) y rhaglen. Gofynnir i'r bartneriaeth ymateb yn ysgrifenedig i gadarnhau presenoldeb a nodi unrhyw amgyffrediad o wrthdaro ymhlith aelodau'r pwyllgor.

Adolygiad ar bapur

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cael copïau o gyflwyniad y rhaglen o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn yr ymweliad â'r safle a'r asesiad. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r ddogfennaeth yn unigol ac ar y cyd, cyn yr ymweliad â'r safle a'r cyfarfodydd.

Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys adolygu canlyniadau monitro ac arolygu blaenorol, ynghyd â data o ddata recriwtio a chymwysterau CGA.

Cyfarfod(ydd) ailachredu rhaglen ac ymweliad â safle

Bydd CGA yn cynnal cyfarfod ar wahân ar gyfer pob rhaglen a gyflwynir, oherwydd rhaglenni sy'n cael eu hachredu, nid partneriaethau.

Cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliad y mae pawb yn cytuno arno. Bydd tîm y bartneriaeth yn rhoi cyflwyniad i'r pwyllgor yn amlinellu'r prif agweddau ar eu rhaglen yn unol â'r ffurflen a'r Meini Prawf. Bydd y pwyllgor yn codi cwestiynau gyda thîm y bartneriaeth am eu rhaglen a bydd cyfle am drafodaeth.

Disgwylir i gyfarfodydd bara tua hanner diwrnod fesul rhaglen. Yn ogystal, bydd 'ymweliad cyffredinol â safle' hefyd yn llunio rhan o'r cyfarfodydd achredu. Bydd hyn yn archwilio themâu sy'n croestorri'r rhaglenni, gan gynnwys (er enghraifft) arweinyddiaeth a rheolaeth.

Y penderfyniad a'r hysbysiad ysgrifenedig

Bydd y bartneriaeth yn cael gwybod am y penderfyniad trwy lythyr at yr unigolyn dynodedig a enwyd yng nghyflwyniad y rhaglen. Anfonir copi o'r llythyr i Lywodraeth Cymru hefyd. Rhoddir y rhesymau llawn dros benderfyniad y pwyllgor yn y llythyr (ar ffurf adroddiad).

Bydd hawl partneriaethau i apelio'n cael ei chyflwyno yn y penderfyniad ysgrifenedig.

Bydd y niferoedd a ariennir yn cael eu cadarnhau i bartneriaethau ym mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Bydd pob rhaglen achrededig yn cael ei rhestru ar wefan CGA.

8 Apelau

Os bydd unrhyw bartneriaeth yn anfodlon â phenderfyniad y pwyllgor, bydd hawl ganddynt apelio o fewn 15 niwrnod gwaith i'r hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor. Bydd angen gwneud apelau yn ysgrifenedig, yn amlinellu'r seiliau dros yr apêl ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol. Rhoddir manylion pellach am y broses apelio yn llythyr y penderfyniad.

Bydd pwyllgor ag aelodau newydd (nad yw'n cynnwys yr un aelod a fu'n gwneud y penderfyniad gwreiddiol) yn ystyried yr apêl. Bydd y pwyllgor apêl yn cyfarfod i ystyried unrhyw apêl a chaiff y bartneriaeth wybod am ganlyniad yr apêl yn ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith.

9 Newidiadau mawr i raglen

Rhoddir achrediad ar sail y bydd rhaglen yn cael ei gweithredu, ac yn parhau i gael ei gweithredu, fel y nodir yn y ddogfennaeth a gyflwynwyd ar gyfer achrediad. Os bydd partneriaeth yn dymuno gwneud newidiadau sylweddol i raglen achrededig, rhaid iddynt roi gwybod i CGA yn ysgrifenedig **cyn** gwneud y newidiadau hyn.

Os na fydd partneriaeth yn siŵr a yw ei newid(iadau) arfaethedig yn newid 'mawr', efallai bydd yn dymuno trafod hyn yn anffurfiol gyda CGA cyn yr hysbysiad ffurfiol. Bydd swyddogion CGA (nad ydynt yn rhan o'r broses benderfynu) yn gallu rhoi cyngor diduedd i bartneriaethau yn ystod unrhyw gam o'r broses.

Beth yw newid mawr?

Mae newid mawr yn un sy'n effeithio'n arwyddocaol ar:

i) ansawdd y rhaglen
ii) cyflwyno'r rhaglen
iii) y ffordd y mae'r rhaglen yn bodloni'r 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru'

Gall enghreifftiau o newidiadau mawr gynnwys y mathau canlynol o newidiadau, ymhlith eraill:

- cyfansoddiad y bartneriaeth neu'r rheolaeth arni
- teitl y rhaglen
- lefel y rhaglen
- y trefniadau dilysu
- hyd y rhaglen neu ei dull cyflwyno
- strwythurau neu fodelau cyflwyno sy'n gysylltiedig â staffio ar draws y bartneriaeth
- strwythurau asesu, niferoedd geiriau ac ati
- gofynion mynediad i fyfyrwyr

Sut i roi gwybod i CGA am newid mawr

Os yw partneriaeth am wneud newid arwyddocaol i raglen achrededig, rhaid iddynt roi gwybod i CGA gan ddefnyddio'r ffurflen 'Hysbysiad o newidiadau mawr i raglen AGA achrededig'. Mae'r ffurflen hon ar gael ar: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-addysg-gychwynnol-athrawon-aga/cyflwyno-rhaglen

Ni fydd CGA yn derbyn hysbysiadau mewn unrhyw fformat arall. Dylid anfon y ffurflen drwy e-bost at achreduaga@cga.cymru.

Adeg cael hysbysiad, bydd swyddogion CGA a Chadeirydd y pwyllgor a arweiniodd yr asesiad achredu diweddaraf yn adolygu'r newid(iadau) arfaethedig ac yn ystyried p'un a yw'r rhain yn berthnasol yn sylweddol i statws achredu'r rhaglen ai peidio.

Pan fo swyddogion CGA a/neu'r Cadeirydd yn fodlon nad yw'r newidiadau arfaethedig yn berthnasol yn sylweddol i statws achredu'r rhaglen, anfonir cadarnhad i'r bartneriaeth y gellir gwneud y newidiadau i'r rhaglen heb adolygiad interim.

Pan fo swyddogion CGA a/neu'r Cadeirydd yn ystyried bod newidiadau o'r fath yn berthnasol i statws achredu'r rhaglen, trefnir adolygiad interim a chaiff y bartneriaeth wybod yn ysgrifenedig. Gall adolygiadau interim gynnwys:

- cyflwyno dogfennaeth sy'n berthnasol i'r newidiadau sylweddol i'r rhaglen er cymeradwyaeth y Bwrdd
- cyfarfod rhwng aelodau'r Bwrdd a'r bartneriaeth i archwilio'r newidiadau ymhellach; os bydd y Cadeirydd o'r farn hefyd bod angen ymweld â'r safle, bydd swyddogion yn hysbysu'r bartneriaeth

10 Monitro

Diben monitro gan CGA yw sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yn parhau i gydymffurfio â'r meini prawf achredu trwy gydol y cyfnod achredu.

Bydd proses fonitro CGA yn sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yng Nghymru yn parhau i gydymffurfio â 'Meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru' ('y Meini Prawf'). Ymgymerir â monitro ar lefel rhaglen. Pe bai unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r meini prawf achredu, nid oes disgwyl fel arfer i bartneriaethau wneud newidiadau i raglenni i fodloni unrhyw feini prawf newydd a gyflwynir yn ystod y cyfnod achredu. Yn ystod y cam ailachredu y byddai newidiadau o'r fath yn cael sylw fel arfer. Bydd rhaglenni'n cael eu monitro yn erbyn y fersiwn o'r meini prawf achredu a ddefnyddiwyd i achredu'r rhaglen.

Fel arfer, bydd ymweliadau monitro'n digwydd yn ystod yr ail flwyddyn pan fydd rhaglen yn weithredol. Mae mwy o wybodaeth am fonitro, gan gynnwys canllawiau monitro CGA, ar gael ar https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/achredu-addysg-gychwynnol-athrawon-aga/rhaglenni-aga-achrededig-yng-nghymru

Gwybodaeth bellach

Cyswllt: Achredu AGA, Cyngor y Gweithlu Addysg
Cyfeiriad: 9fed Llawr, Tŷ Eastgate, 35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB
Ffôn: 029 2046 0099

E-bost: achreduaga@cga.cymru
Gwefan: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.